CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol: adroddiad cynnydd blynyddol 2024

Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar eu blaenoriaethau gwaith teg y fforwm yn y sector gofal cymdeithasol yn ystod 2023 a blaenoriaethau datblygol yn 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 31 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 31 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Ein gweledigaeth: gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol**

**Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gwaith teg**

**Blaenoriaethau'r fforwm yn 2024**

**Rhagor o wybodaeth**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ein gweledigaeth: gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol

Sefydlwyd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ("y fforwm") ym mis Medi 2020. Dyluniwyd y fforwm i ddod â'r llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur ynghyd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac ystyried sut y dylid gweithredu gwahanol elfennau o waith teg yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Canolbwyntiodd y fforwm ei ymdrechion cychwynnol ar wella tâl, a buddsoddodd gryn amser yn paratoi cyngor ar weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dros y deunaw mis diwethaf, mae'r fforwm wedi bod yn datblygu elfennau eraill o'i raglen waith, er enghraifft, rhoi blaenoriaeth i ddrafftio fframwaith tâl a dilyniant ar gyfer y maes gofal cymdeithasol a sefydlu 'partneriaeth y gweithlu gofal cymdeithasol', a fydd yn hyrwyddo trefniadau cydfargeinio ar gyfer y maes.

Bob blwyddyn, mae'r fforwm yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn ei raglen waith ac yn esbonio sut y mae wedi bod yn gweithio i gefnogi'r gwaith o weithredu arferion gwaith da ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gweithgareddau ac yn tynnu sylw at y materion sy'n dod i'r amlwg y mae'r fforwm wedi bod yn mynd i'r afael â nhw yn ystod 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gwaith teg

## Telerau ac amodau cydradd drwy bartneriaeth gymdeithasol

Er bod telerau ac amodau adrannau o'r gweithlu gofal cymdeithasol eisoes yn dod o dan drefniadau cydfargeinio, nid yw'r trefniadau hyn yn gymwys i bawb. Mewn ymateb i'r sefyllfa hon, mae grŵp gorchwyl a gorffen o'r fforwm wedi treulio amser yn ystyried sut i ddatblygu model cydfargeinio unigryw ar gyfer y sector gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at sefydlu 'partneriaeth y gweithlu gofal cymdeithasol', sydd dros amser yn anelu at ymgorffori sawl elfen o waith teg ar gyfer gweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru.

Mae'r fforwm bellach wedi cytuno ar weledigaeth gyffredinol a set eang o egwyddorion ar gyfer y bartneriaeth. Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gyfer aelodaeth wirfoddol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bydd hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd y bartneriaeth yn ystyried 'modelau o arferion gorau' y gellid eu mabwysiadu ar draws y sector gofal cymdeithasol annibynnol. I ddechrau, byddai'r rhain yn cael eu mabwysiadu'n wirfoddol gan gyflogwyr, ond uchelgais y bartneriaeth yw i'r modelau hyn o arferion gorau gael eu hymgorffori ar gyfer yr holl staff o fewn cwmpas y sector gofal cymdeithasol dros amser.

## Fframwaith tâl a dilyniant teg i'r sector cyfan

Mae aelodau'r fforwm wedi bod yn gweithio'n galed i amlinellu set o delerau ac amodau a ystyrir yn enghraifft o arferion da i'r rhai sy'n darparu gofal cymdeithasol. Mae is-grŵp o'r fforwm wedi bod yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr adnoddau dynol ar draws y sector i ddatblygu framwaith tâl a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dilyniant drafft, a fydd yn canolbwyntio ar ofal uniongyrchol yn y lle cyntaf.

Nod y fframwaith drafft yw darparu cyfleoedd tâl, dilyniant a datblygiad mwy cyson a theg, a bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy nodi bandiau ar gyfer rolau ym maes gofal cymdeithasol, sy'n cyfateb i sgiliau a datblygiad dysgu. Dros amser, bydd is-grŵp o'r fforwm yn cysylltu'r rhain â thâl, ar y cyd â'r cyngor partneriaeth gofal cymdeithasol.

Mae'r fframwaith drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad a chafodd ymateb cadarnhaol. Mae is-grŵp wedi cyfarfod i drafod y camau nesaf, ac rydym bellach yn symud i gam dau y fframwaith lle byddwn yn datblygu cynllun prosiect ac yn cytuno ar y camau a fydd yn dwyn y fframwaith ymlaen.

## Gwobrwyo teg

### Mynd i'r afael â thâl isel yn y sector annibynnol a gomisiynwyd

Yn hanesyddol, mae trefniadau comisiynu yng Nghymru wedi tueddu i arwain at drefniadau cytundebol amrywiol a lefelau tâl sy'n aros ar yr isafswm statudol, a all roi'r argraff fod rôl gofal cymdeithasol yn alwedigaeth statws isel nas gwerthfawrogir.

Paratôdd y fforwm achos manwl ar gyfer gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2022, ymatebodd Llywodraeth Cymru gan roi £43m o gyllid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar gyfer 2022 i 2023 i gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd £70m yn rhagor o gyllid ei ddarparu yn 2023 i 2024 i gynyddu cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol i gyrraedd y gyfradd sy'n cael ei hargymell gan y Sefydliad Cyflog Byw o £10.90 yr awr o fis Ebrill 2023 ymlaen.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymhellach bod y gyllideb ar gyfer 2024 i 2025 yn cynnwys cyllid i gefnogi ymdrechion awdurdodau i barhau i dalu costau parhaus y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae'r fforwm yn ymwybodol o'r pwysau ariannol difrifol a heriol sy'n cael eu profi ar bob lefel o lywodraeth, ond bydd yn parhau i gadw golwg ar y ffordd y caiff y Cyflog Byw Gwirioneddol ei weithredu ar draws y sector. Bydd hyn yn cynnwys archwilio canlyniadau gwerthusiad annibynnol pan gyhoeddir yr adroddiad ar ei gyfer. Yn y cyfamser, bydd y fforwm yn parhau i ganolbwyntio ar ei uchelgais hirdymor i ehangu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i bob gweithiwr cynorthwyol sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

## Tâl salwch

Mae'r fforwm yn pryderu am annhegwch pellach o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n bosibl mai dim ond yr isafswm tâl salwch statudol y bydd llawer o weithwyr gofal cymdeithasol yn y sector annibynnol, a'r rhai a gyflogir drwy daliadau uniongyrchol, yn ei gael. Mae hyn yn wahanol iawn i sefyllfa'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol a'r GIG. Yn ogystal ag effaith negyddol hyn ar weithwyr gofal cymdeithasol, mae'r diffyg tâl salwch yn risg ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal ac yn dibynnu arno.

Mae'r fforwm yn ystyried tâl salwch yn flaenoriaeth frys i staff sy'n gweithio yn y sector annibynnol ac mae wedi rhoi cyngor i weinidogion ar y mater hwn yn flaenorol. Dros y misoedd nesaf, bydd y fforwm yn parhau i roi blaenoriaeth i wella darpariaeth tâl salwch ar draws y sector, a bydd yn gweithio gyda gweinidogion a swyddogion i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Profiad cynorthwywyr personol yn y sector gofal cymdeithasol

Mae cynorthwywyr personol yn elfen gynyddol o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol, ac mae'r fforwm wedi bod yn awyddus i sicrhau bod eu telerau ac amodau yn cael eu hadlewyrchu o fewn cwmpas ei weithgareddau. Drwy ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynorthwywyr Personol, mae'r fforwm wedi bod yn ystyried materion sy'n wynebu'r gweithlu hwn yng Nghymru.

Comisiynodd y grŵp gorchwyl a gorffen **waith ymchwil yn gyntaf i ddeall yn well yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu hwn, sydd bellach wedi'i gwblhau ac sydd ar gael ar ein gwefan**. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu hystyried gan y grŵp gorchwyl a gorffen, sydd wedi datblygu nifer o feysydd neu argymhellion i'w hystyried fel y camau nesaf.

Dros y misoedd nesaf, bydd y fforwm yn gweithredu'r argymhellion hyn i wella profiad gwaith cynorthwywyr personol a sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ymgorffori cynorthwywyr personol yn y fframwaith tâl a dilyniant a hyrwyddo manteision bod yn aelod o undeb llafur i'r sector hwn o'r gweithlu.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac mae cyfres o adroddiadau wedi tynnu sylw at faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Mewn ymateb, mae'r fforwm wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd i gefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol. Bydd hefyd yn ystyried y camau sydd angen eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cymryd mewn ymateb i ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i brofiadau gweithwyr ethnig leiafrifol ar gyflogau is ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a phapurau ymchwil ar gynorthwywyr personol a micro-ofalwyr o safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Cymorth menopos

Mae menywod yn cyfrif am fwy na 80% o'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac felly mae'n hanfodol bod gan gyflogwyr gofal cymdeithasol yr adnoddau i gefnogi gweithwyr yn ystod y menopos. Trefnodd y fforwm weithdy partneriaeth gymdeithasol yn ystod hydref 2023, gan ganolbwyntio ar gymorth, arweiniad a chyngor mewn perthynas â'r menopos i gyflogwyr. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal arolwg gyda darparwyr ar draws y sector, fel y gall y fforwm gael syniad cliriach o lefel y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn galluogi'r fforwm i dynnu sylw at fylchau yn y cymorth sydd ar gael, a hyrwyddo arferion da, gyda'r gobaith y bydd hyn yn helpu i sicrhau gwell buddion o ran iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol i fenywod ar draws y sector.

## Comisiynu gwaith ymchwil ac ymgysylltu ar ddarpariaeth gwasanaethau micro-ofal

Mae rôl 'micro-ofalwyr' yn ehangu o fewn y sector gofal cymdeithasol. Yn dilyn ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys y fforwm, ym mis Ionawr 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Gwasanaethau micro-ofal: adroddiad ymgysylltu', sy'n cynnwys crynodeb o'r gwaith ymgysylltu ynghylch darparu gofal personol drwy wasanaethau micro-ofal ac yn nodi'r camau nesaf i ddatblygu egwyddorion polisi ac arferion da ar gyfer gwasanaethau micro-ofal (gweler dolenni Cymraeg a Saesneg i'r adroddiad isod).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nododd yr adroddiad sawl maes y mae angen eu hystyried ymhellach. Felly, mae'r fforwm yn sicrhau bod micro-ofalwyr yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas ei raglen waith, a bydd yn gweithio gyda gweinidogion Llywodraeth Cymru wrth iddynt ddechrau gweithredu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad.

### Tynnu sylw at ddiogelwch a hyblygrwydd contractau

Dros y misoedd nesaf, bydd y fforwm yn gweithio i ddeall yn well effaith oriau heb eu gwarantu, neu gytundebau 'dim oriau' ar weithwyr gofal cymdeithasol. Bydd y fforwm yn defnyddio ymchwil ar gontractau dim oriau ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru a gomisiynwyd yr haf diwethaf (2023). Mae disgwyl i'r adroddiad terfynol gael gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

## Blaenoriaethau'r fforwm yn 2024

### Partneriaeth y gweithlu gofal cymdeithasol

Roedd y fforwm yn falch bod cyfarfod cyntaf 'partneriaeth y gweithlu gofal cymdeithasol' wedi'i gynnal ym mis Ebrill 2024 ac ail gyfarfod wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, cytunwyd ar raglen waith sy'n cynnwys ymgysylltu ymhellach â'r sector a chyflwyno dull graddol o weithredu a phrofi trefniant partneriaeth gwirfoddol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru.

### Tâl a dilyniant

Mae'r fframwaith tâl a dilyniant wedi symud i gam dau, a'r camau nesaf yw datblygu cynllun prosiect i gytuno ar dasgau a therfynau amser sy'n ymwneud â blaenoriaethau allweddol y fframwaith, megis rolau safonol, cyfleoedd i gamu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ymlaen ac ystyried graddfeydd cyflog. Nod y fforwm yw i'r fframwaith newydd osod disgwyliadau clir ynghylch sut y dylid cydnabod ein gweithlu medrus ac ymroddedig yn genedlaethol.

### Rhoi sylw i hawliau, lleisiau a chynrychiolaeth y gweithwyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r fforwm wedi derbyn tystiolaeth dro ar ôl tro sy'n awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth eang o hawliau gweithwyr o fewn y sector gofal cymdeithasol. Bydd codi ymwybyddiaeth o hawliau gweithwyr yn flaenoriaeth i'r fforwm dros y misoedd nesaf, yn ogystal â hyrwyddo manteision bod yn aelod o undeb llafur.

### Recriwtio rhyngwladol

Mae'r fforwm yn ymwybodol o ystod o faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â gweithwyr gofal tramor, ac sy'n effeithio arnynt, a fydd hefyd yn cael eu hystyried wrth symud ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, partneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr undebau llafur o'r fforwm i ystyried sut y gallwn ddarparu arweiniad a chymorth pellach i'n gweithlu rhyngwladol.

## Rhagor o wybodaeth

**Adroddiad ymgysylltu ynghylch gwasanaethau micro-ofal**.

Sefydlwyd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ym mis Medi 2020 yn dilyn argymhelliad Comisiwn Gwaith Teg Cymru, a'r cadeirydd annibynnol yw'r Athro Rachel Ashworth, Deon a Phennaeth Ysgol Fusnes Caerdydd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r fforwm yn grŵp partneriaeth gymdeithasol sy'n cynnwys cyflogwyr, cyflogeion, rhanddeiliaid a'r Llywodraeth ar sail gyfartal. Yr aelodau yw:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- GMB
- Fforwm Cenedlaethol y Darparwyr
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngres Undebau Llafur Cymru
- Unsain
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae cylch gwaith y fforwm yn canolbwyntio ar weithwyr gofal cymdeithasol cyflogedig yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. I ddechrau, mae wedi canolbwyntio'n bennaf ar weithwyr gofal cymdeithasol yn y sector annibynnol, ond bydd ei ystyriaethau hefyd yn ymestyn i'r sector cyhoeddus. Ni fydd y fforwm yn amharu ar y proffesiynau hynny sydd eisoes â chytundebau cydfargeinio ar waith, er enghraifft gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, nyrsys cofrestredig ac ati.

Mae rhagor o wybodaeth am y fforwm ar gael ar **ein tudalen gwe ar gyfer y Fforwm Gwaith Teg ar gyfer Gofal Cymdeithasol**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol-adroddiad-cynnydd-blynyddol-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.